

ADRODDIAD BLYNYDDOL

CYDYMFFURFEDD Â'R SAFONAU IAITH GYMRAEG

2020-21



Grŵp
**Llandrillo
Menai**

CYNNWYS

Cyflwyniad	3
Cefndir/cyd-destun yr adroddiad	4
TREFNIADAU GORUCHWYLIO A MONITRO CYDYMFFURFEDD	4
Materion sy'n codi'n ystod y cyfnod adrodd	6
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	6
Safonau Llundio Polisi	9
Safonau gweithredu	10
Sgiliau Cymraeg Cyflogeion	13
Recriwtio i Swyddi Gwag a Newydd	14
Hyfforddiant Cymraeg i gyflogeion	15
Hyfforddiant ieithyddol ac ymwybyddiaeth iaith i gyflogeion	15
Cwynion	15
Casgliadau ac Argymhellion	16

1. Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safon yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Yn unol â gofynion y safonau, dyma gyhoeddi adroddiad blynyddol 2020/21 y Grŵp ar ei weithrediad o'r [Safonau Iaith Gymraeg](#). Mae'r adroddiad yn amlinellu'r modd y bu i'r Grŵp gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod 1 Awst 2020 hyd at 31 Gorffennaf 2021.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i ddysgwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd. Yn benodol, mae'r Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd datblygiadau uchelgeisiol a fydd yn meithrin amgylchedd a fydd yn hyrwyddo defnydd a thwf yr iaith Gymraeg ymhlith dysgwyr, staff a rhanddeiliaid allweddol.

Cyhoeddwyd Polisi Iaith Gymraeg newydd y Grŵp yng Nghorffennaf 2021 sy'n cwmpasu ein bwriad i ddarparu gwasanaethau yn ddwyieithog i ddysgwyr a'r cyhoedd ac i ehangu'r ystod o ddarpariaeth addysg uwch, addysg bellach ac yn y gweithle sydd ar gael i ddysgwyr. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu bwriad y Grŵp i dyfu ein gweithlu dwyieithog drwy'r broses recriwtio a thrwy gynnig hyfforddiant a chefnogaeth i staff presennol y Grŵp.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad mae Panel Iaith y Grŵp wedi arwain ar adolygiad o Bolisi Recriwtio'r Grŵp yn edrych yn benodol ar ofynnion sgiliau iaith Gymraeg pob swydd newydd er mwyn cryfhau ymroddiad y Grŵp i ddatblygu gweithlu dwyieithog. Fel rhan o'r gwaith hyn, mae'r Panel iaith hefyd wedi goruchwyllo datblygiad o raglen dysgu Cymraeg dwys newydd i staff fydd yn cefnogi gweithredu'r Polisi Recriwtio. Mae'r broses hon wedi cynnwys ymgynghoriad manwl â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod y polisi a'r rhaglen yn ymarferol ac yn uchegeisiol. Gobeithir y bydd Polisi Recriwtio newydd a'r rhaglen dysgu Cymraeg dwys i staff yn weithredol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Dyddiad Cyhoeddi: 31 Ionawr 2022

2. Cefndir/cyd-destun yr adroddiad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safon yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Yn unol â gofynion y safonau, dyma gyhoeddi adroddiad blynyddol 2020/21 y Grŵp ar ei weithrediad o'r [Safonau Iaith Gymraeg](#). Mae'r safonau wedi eu rhannu'n bedwar maes:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Cadw cofnodion

Gellir cael hyd i drefniadau'r Grŵp ar gyfer goruchwyllo cydymffurfiaeth â'r safonau a hybu a hwyluso defnydd o wasanaethau Cymraeg [yma](#).

TREFNIADAU GORUCHWYLLO A MONITRO CYDYMFFURFEDD

Manylion cyswllt ar gyfer cyflwyno ymholiadau: SafonauCymraeg@gllm.ac.uk

Uwch-swyddog cyfrifol: Angharad Mai Roberts, Cyfarwyddwr Datblygu Dwyieithrwydd, Adnoddau Dysgu a Sgiliau

Trefniadau dirprwyo cyfrifoldebau gweithredol: Mae Panel Iaith y Grŵp yn goruchwyllo'r Polisi Iaith Gymraeg. Cynhelir cyfarfodydd Panel Iaith dwywaith y tymor. Bydd cadeirydd y Panel Iaith yn rhoadru gwybodaeth i Tîm Strategol y Grŵp a bydd y Rheolwr Datblygu Dwyieithrwydd yn mynychu cyfarfodydd Timau Rheoli yn ôl ar angen i ddiweddar rheolwyr am unrhyw ddatblygiadau, arfer da, neu unrhyw feysydd/materion sydd angen sylw neu gefnogaeth bellach. Ystyrir bod pob aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfedd â'r Safonau Iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Grŵp, ac mae ymwybyddiaeth o'r safonau yn rhan o'r hyfforddiant cynefino a roddir i bob aelod newydd o staff. Yn ogystal, mae sesiynau hyfforddiant ar y safonau yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae modd i unrhyw aelod o staff archebu lle ar y cyrsiau hyn.

Panel Iaith y Grŵp sy'n cymeradwyo'r adroddiad hon. Bydd yr adroddiad yna'n cael ei gyflwyno i'r Tîm Strategol a'r Llywodraethwyr.

Monitro: Ymgymerir â'r gwaith monitro'n fewnol gan yr adran Datblygu Dwyieithrwydd. Gwneir hyn drwy ddulliau siopwr cudd (ymweliadau, galwadau ffôn, negeseuon e-bost, a gwaith pen ddesg e.e. gwirio dogfennau a chynnwys y cyfryngau cymdeithasol) gyda'r amcan o adnabod arfer dda a'r meysydd sydd angen cefnogaeth neu hyfforddiant ychwanegol. Gwneir y gwaith hwn unwaith y flwyddyn ac adroddir y canlyniadau a'r allbynnau i'r Panel Iaith a'r rheolwyr a'r penaethiaid perthnasol.

Yn ogystal, defnyddir canlyniadau gwaith monitro Comisiynydd y Gymraeg ac Adroddiad Sicrwydd Ansawdd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ddarparu safbwynt annibynnol, i adnabod arfer da a meysydd i'w gwella.

Gellir cael hyd i weithdrefn gwyno'r Grŵp ar ein [gwefan](#), sy'n nodi beth yw'r drefn ar gyfer delio â chwynion ynghylch cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.

3. Materion sy'n codi'n ystod y cyfnod adrodd

3.1. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Maes	Rhif Safon	Yn berthnasol i	Diweddariad (Rhagfyr 2021)	Datblygiad Pellach
Gohebiaeth (llythyrau, ymholiadau ac ati)	1-7	Pawb	<p>Arfer y Grŵp yw i ohebu yn gyffredinol yn ddwyieithog.</p> <p>Mae gan y Grŵp adran gyfieithu mewnol. Mae unrhyw ohebiaeth, neu dogfennau cyhoeddus, yn cael eu cyfieithu a/neu eu prawf ddarllen gan aelod o'r tîm cyfieithu er mwyn sicrhau cywirdeb iaith.</p> <p>Mae pob neges e-bost a yrrir o gyfeiriad e-bost y Grŵp yn cynnwys neges yn y troedyn yn nodi coesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.</p> <p>Mae pob gohebiaeth Cymraeg gan unigolyn yn derbyn ymateb yn Gymraeg (oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg). Mae holl staff wedi derbyn arweiniad a/neu hyfforddiant ar hyn, gyda staff newydd yn derbyn arweiniad ar hyn mewn sesiynau cynefino staff.</p> <p>Cedwir gofnod o ddewis iaith pob dysgwr a phrentis cofrestredig ar systemau TGCh y Grŵp.</p> <p>Yn ystod cyfnod yr adroddiad hon datblygwyd cyfleuster 'webchat' sy'n caniatáu ymholiadau gan y cyhoedd ar ein gwefan. Mae'r gwasanaeth yma ar gael yn Gymraeg.</p> <p>Canlyniad awdit mewnol Tachwedd 2020-Ionawr 2021:</p> <p>Anfonwyd 14 e-bost i amrywiaeth o gyfeiriadau e-bost cyffredinol ar draws y Grŵp. Roedd 7 o'r e-byst hyn yn Gymraeg, a'r 7 arall yn iaith Saesneg. Derbyniodd un e-bost Cymraeg ateb yn Saesneg.</p> <p>Anfonwyd 4 neges 'webchat', 2 Cymraeg a 2 Saesneg. Derbyniodd y negeseuon Cymraeg ateb yn Gymraeg.</p>	Sicrhau bod yr adrannau perthnasol yn derbyn arweiniad pellach ar ateb negeseuon e-bost yn Gymraeg.
Dogfennau a deunydd marchnata	37-38, 43-54	Staff adran gyda chyfrifoldeb marchnata	<p>Mae holl ddeunydd marchnata'r Grŵp ar gael yn ddwyieithog.</p> <p>Mae dogfennau a deunyddiau marchnata yn cael eu cyfieithu a/neu eu prawf ddarllen gan aelod o'r tîm cyfieithu er mwyn sicrhau cywirdeb iaith.</p>	Sicrhau bod yr adrannau perthnasol yn derbyn arweiniad pellach ar gynhyrchu pamffledi.

			<p>Mae unrhyw beth a gynhrychir yn gorfforaethol (prosbectysau ac ati) yn nodi ein bod yn hapus i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.</p> <p>Canlyniad awdit mewnol Tachwedd 2020-Ionawr 2021:</p> <p>Archwilwyd dwy ffurflen ac wyth o bamffledi. Roedd un ffurflen yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf, roedd yr ail ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Roedd y ddwy ffurflen yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg gan nodi na fyddai ffurflenni a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol nac yn arwain at unrhyw oedi. Roedd fersiynau Cymraeg/Saesneg ar wahân gan dri o'r pamffledi ac roedd 5 yn ddwyieithog. Roedd chwech o'r pamffledi yn cynnwys prif rifau ffôn ond nid yn nodi ein bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.</p>	
Gwasanaeth derbynfeydd	68-72	Staff derbynfeydd yn unig	<p>Mae staff ar gael i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn nerbynfeydd holl gampysau'r Grŵp. Mae staff sy'n ddwyieithog yn gwisgo laniard 'Cymraeg' y Grŵp i gyfleu i ymwelwyr eu bod yn siarad Cymraeg ac yn gallu cynnig gwasanaeth derbynfa yn y Gymraeg.</p> <p>Arddangosir arwydd yn y derbynfeydd yn croesawu unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg.</p> <p>Mae staff y derbynfeydd nad ydynt yn gwbl rhugl, neu â diffyg hyder, yn cael cynnig gwersi Cymraeg i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder ymhellach.</p> <p>Canlyniad awdit mewnol Tachwedd 2020-Ionawr 2021:</p> <p>Oherwydd cyfyngiadau COVID, dim ond un ymweliad safle yr oedd yn bosibl ei wneud. Ar yr achlysur hwn derbyniodd yr ymwelydd wasanaeth Cymraeg gan staff y dderbynfa.</p>	<p>Parhau i gynnal awdit mewnol i fonitro cydymffurfiad.</p> <p>Sicrhau bod staff derbynfeydd newydd yn derbyn hyfforddiant ar ofynnion y safonau iaith Gymraeg.</p>
Galwadau ffôn	8-22	Gwasanaeth prif linellau cyswllt a derbynfeydd yn unig.	<p>Mae holl staff derbynfeydd yn cyfarch yn ddwyieithog wrth ateb galwad ar brif rif ffôn (neu ar un o'r prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau.</p> <p>Mae'r prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn yn chwarae neges awtomatig dwyieithog i ddweud bod modd gadael neges yn Gymraeg.</p> <p>Mae trefniadau mewn lle yn Rhyl ac Abergele i drosglwyddo ymholiad i aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg. Does dim angen trefniant tebyg yn CM a CMD.</p> <p>Canlyniad awdit mewnol Tachwedd 2020-Ionawr 2021:</p> <p>Gwnaed 8 galwad ffôn Cymraeg i brif switsfyrddau ar draws y Grŵp. Derbyniwyd gwasanaeth Cymraeg</p>	<p>Parhau i gynnal awdit mewnol i fonitro cydymffurfiad.</p> <p>Sicrhau bod staff derbynfeydd newydd yn derbyn hyfforddiant ar ofynnion y safonau iaith Gymraeg.</p>

			<p>ar 7 achlysur. Ar un galwad cafwyd cyfarchiad Cymraeg - 'bore da' - ond yna aeth y sgwrs ymlaen yn Saesneg. Ni dderbyniwyd cynnig i drosglwyddo'r galwad i siaradwr Cymraeg, ond pan wnaeth y galwr gais i siarad efo rhywun Cymraeg cafodd ei throsglwyddo a pharhaodd y sgwrs yn Gymraeg.</p>	
Gwefan	55-59	Tîm Marchnata	<p>Mae'r holl destun ar wefan y Grŵp ar gael yn Gymraeg. Mae pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gweithredu'n llawn. Mae'r wefan yn nodi'n glir ar y dudalen Saesneg fod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg ac yn darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg.</p> <p>Mae cyfleuster sgwrsio wedi ei ychwanegu i'n gwefan yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ac mae'r cyfleuster ar gael yn y Gymraeg. Mae unrhyw neges sy'n cael ei dderbyn trwy'r cyfleuster sgwrsio Cymraeg yn derbyn ymateb yn y Gymraeg.</p> <p>Canlyniad awdit mewnol Tachwedd 2020-Ionawr 2021:</p> <p>Adolygwyd 10 tudalen ar y wefan.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd un dudalen Gymraeg a oedd yn rhestru cyrsiau yn cynnwys botwm 'view course' yn lle 'gweld y cwrs' • Roedd un dudalen Gymraeg yn cynnwys dolen i wefan allanol Saesneg, er bod fersiwn Cymraeg o'r wefan ar gael • Roedd un tudalen Gymraeg yn cynnwys fideos hyrwyddo gan ddysgwyr yn siarad am eu profiadau yn Saesneg. Mae fideos Cymraeg a Saesneg ar gael, ac mae'r fideo a ddangosir yn cael ei ddewis ar hap. O ganlyniad nid yw'r dudalen Gymraeg bob amser yn arddangos fideo Cymraeg. 	<p>Ers cyfnod yr awdit ddiwethaf mae'r Grŵp wedi lansio gwefan newydd sbon. Mae awdit 2021-22 ar y gweill ar hyn o bryd.</p>
Cyfyngau cymdeithasol	62-63	Tîm Marchnata a staff adran gyda chyfrifoldeb marchnata.	<p>Mae pob neges yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog ar yr holl blatfformau cyfyngau cymdeithasol swyddogol y Grŵp.</p> <p>Pan fydd unigolion y cysylltu trwy'r cyfyngau cymdeithasol yn y Gymraeg maent yn derbyn ateb yn y Gymraeg.</p> <p>Mae nifer cynyddol o gyfrifon adrannol yn cael eu creu ar y cyfyngau cymdeithasol, sy'n cael eu gweinyddu gan staff adrannol yn hytrach na'r tîm marchnata. Mae holl staff y Grŵp yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio a'r safonau iaith wrth gyhoeddi negeseuon ar unrhyw gyfrifon sy'n gysylltiedig â'r Grŵp. Ceir rhai enghreifftiau prin lle nad oes staff yn cydmyffurfio â'r safonau hyn bob amser ond rydym yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn (gweler argymhellion ar dudalen 16).</p>	<p>Mae gwaith ar y gweill i gofnodi'r holl gyfrifon sy'n gysylltiedig â'r Grŵp, ar draws yr holl blatfformau ac ar draws yr holl adrannau.</p> <p>Mae'r Panel Iaith bellach wedi penderfynu gofyn bod cyfrifon adrannol yn cael eu cau a bydd yr adran farchnata yn monitro'r sefyllfa a'n cysylltu â chyfrifon nad ydynt yn gysylltiedig â phrif gyfrifon y Grŵp. Mae ambell i eithriad os ydi'r cyfrif yn enwedig o boblogaidd a'n gweithredu o fewn gofynnion y Safonau Iaith Gymraeg.</p>

			<p>Canlyniad awdit mewnol Tachwedd 2020-Ionawr 2021:</p> <p>Adolygwyd cyhoeddiadau ar 24 cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar draws tri llwyfan gwahanol - Twitter, Facebook ac Instagram. Roedd cyfuniad o gyfrifon corfforaethol ac adrannol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd bywgraffiad dwyieithog gan 16 o'r cyfrifon tra bod 8 ohonynt gyda bywgraffiad Saesneg yn unig. • Mae 14 o'r cyfrifon a adolygwyd yn cyhoeddi yn ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg, 6 yn Saesneg yn unig, a'r cyfrifon sy'n weddill weithiau'n cyhoeddi yn Gymraeg/yn ddwyieithog. 	
Cyfarfodydd	24-36	Pawb	<p>Defnyddir staff yr adran gyfieithu i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus, a chyfarfodydd adnoddau dynol e.e. cyfweiliadau. Ar adegau pan nad oes staff mewnol ar gael, defnyddir gwasanaeth cwmni cyfieithu allanol.</p> <p>Yn ystod y pandemig mae'r mwyafrif o gyfarfod wyneb-yn-wyneb wedi dod i ben a dulliau rhithiol yn cael eu defnyddio yn hytrach. Oherwydd natur sydyn y cloi, nid oedd gennym gyfleuster cyfieithu ar y pryd yn ei le ar gyfer cyfarfodydd ar-lein am gyfnod, ac o ganlyniad nid oedd pob cyfarfod yn gwbl ddwyieithog. Fodd bynnag, roedd pawb a oedd yn bresennol yn rhydd i gyfrannu at gyfarfodydd yn yr iaith o'u dewis. Erbyn hyn, er mwyn gallu cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd rhithiol, mae'r Grŵp wedi buddsoddi mewn trwydded Zoom sy'n caniatâu cyfieithu ar y pryd.</p>	

3.2. Safonau Lluio Polisi

Maes	Rhif Safon	Yn berthnasol i	Diweddariad (Rhagfyr 2020)	Datblygiad Pellach
Lluio polisi neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli	94-104	Grŵp Tîm Rheoli, Panel laith, Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd, Rheolwyr Maes Rhaglen	<p>Mae pob polisi newydd a phob polisi sy'n cael ei addasu yn cael ei asesu ar gyfer effaith ar y Gymraeg. Mae ffurflen yn cofnodi'r asesiad yn cael ei gynnwys yn y ddogfen polisi. Mae pob asesiad o'r fath yn cael ei graffu arno yn y Panel laith.</p> <p>Mae'r Grŵp Cwricwlwm Strategol yn ystyried unrhyw newidiadau i gyrsiau neu gyflwyno cyrsiau newydd. Fel rhan o'r broses honno mae gofyn ystyried yr effaith ar y Gymraeg.</p>	Parhau i fonitro'r broses llunio polisi

3.3. Safonau gweithredu

Maes	Rhif Safon	Yn berthnasol i	Diweddariad (Rhagfyr 2020)	Datblygiad Pellach
Gohebiaeth a chyhoeddiadau (llythyrau, dogennaeth, ymholiadau ac ati)	105 112-118	Pawb	Arfer y Grŵp yw gohebu yn gyffredinol yn ddwyieithog. Pan dderbynnir gohebiaeth yn y Gymraeg atebir hwnnw yn y Gymraeg.	
Arwyddion a deunyddiau ar y waliau	150-151	Pawb	Mae'r holl ddeunydd swyddogol sy'n mynd ar waliau'r coleg yn ddwyieithog. Canlyniad awdit mewnol Tachwedd 2020-Ionawr 2021: Oherwydd cyfyngiadau COVID nid oedd hi'n bosib ymweld â safleoedd y Grŵp i adolygu arwyddion.	Cynnal awdit mewnol i fonitro cydymffurfiad
Meddalwedd cyfrifiadurol a Systemau ar-lein	127-133	Pawb	Mae gan bob aelod o staff fynediad at feddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg. <ul style="list-style-type: none"> Mae pob peiriant ar rwydwaith y coleg yn cynnwys pecyn Cysgliad Mae pawb sydd wedi derbyn offer gan y Grŵp i weithio o adref yn ystod yr argyfwng COVID wedi derbyn offer sy'n cynnwys pecyn Cysgliad Mae staff a dysgwyr wedi derbyn gwybodaeth am sut i lawrlwytho'r pecyn Cysgliad am ddim i'w offer personol <p>Mae staff y Grŵp yn defnyddio ystod o systemau cyfrifiadurol ar gyfer eu gwaith bod dydd. Mae unrhyw systemau sydd wedi eu datblygu yn fewnol gan y Grŵp ar gael yn Gymraeg. Lle defnyddir systemau gan gwmnïau allanol, defnyddir rhai sydd ar gael yn Gymraeg/ddwyieithog lle bo hynny bosib, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Porth y Grŵp - mewnrwyd y Grŵp eDrac - system monitro dysgwyr My View - system cofnodi gwyliau, salwch, absenodebau STEPS - system cofnodi datblygiad staff <p>Canlyniad awdit mewnol Tachwedd 2020-Ionawr 2021: Adolygwyd rhai adrannau penodol ar Borth y Grŵp, MyView ac eDrac. Mae pob un o'r adrannau adolygwyd ar gael yn Gymraeg ac yn caniatáu i'r defnyddiwr ddewis ei iaith.</p>	Cynnal awdit mewnol i fonitro cydymffurfiad

Hyfforddiant i staff	135-140	Pawb	<p>Mae'r Grŵp yn defnyddio system gyfrifiadurol STEPS i reoli hyfforddiant staff. Mae'r rhaglen STEPS ar gael yn Gymraeg. Mae'r rhaglen yn cofnodi'r holl hyfforddiant sydd ar gael yn fewnol, gyda chyfleuster i staff archebu le ar unrhyw gwrs/sesiwn hyfforddi sy'n cael ei hysbysebu. Mae'r system hefyd yn nodi os yw'r cwrs/sesiwn hyfforddi ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, mae hyn yn galluogi staff i ddewis cyfrwng iaith eu hyfforddiant.</p> <p>Cynigir ystod o gyrsiau yn ymwneud a'r Gymraeg, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwersi Cymraeg Gwaith i staff sydd eisiau datblygu eu sgiliau Cymraeg, Mae gwersi ar gael ar gyfer pob lefel gallu. • hyfforddiant ar safonau'r Gymraeg • Hyfforddiant Sgiliaith yn ymwneud ag addysgu/asesu'n ddwyieithog <p>Mae'r adran Datblygu Dwyieithrwydd wedi datblygu pecyn e-ddysgu rhyngweithiol i staff ar ymwybyddiaeth iaith. Mae dau becyn ar gael - un ar gyfer staff dysgu ac un ar gyfer staff cefnogi busnes.</p> <p>Canlyniad awdit mewnol Tachwedd 2020-Ionawr 2021:</p> <p>Adolygwyd 20 o ddigwyddiadau hyfforddi ar STEPS, roedd pob un ond un yn gyrsiau ar-lein.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd 8 cwrs yn ddwyieithog, a 2 cyfrwng Cymraeg • Roedd gan bob cwrs Cymraeg/dwyieithog ddisgrifiad/crynodeb Cymraeg o'r cwrs 	Rhoi arweiniad i'r tîm datblygu staff bod holl destun yr adran hyfforddiant (STEPS) ar fewnwyd y Grŵp angen bod yn ddwyieithog
Penodi staff newydd	145-148	Rheolwyr Maes Rhaglen	<p>Yn ystod cyfnod yr adroddiad mae Panel Iaith y Grŵp wedi arwain ar adolygiad o Bolisi Recriwtio'r Grŵp yn edrych yn benodol ar ofynnion sgiliau iaith Gymraeg pob swydd newydd er mwyn cryfhau ymroddiad y Grŵp i ddatblygu gweithlu dwyieithog. Fel rhan o'r gwaith hyn, mae'r Panel Iaith hefyd wedi goruchwyllo datblygiad o raglen dysgu Cymraeg dwys newydd i staff fydd yn cefnogi gweithredu'r Polisi Recriwtio. Mae'r broses hon wedi cynnwys ymgynghoriad manwl â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod y polisi a'r rhaglen yn ymarferol ac yn uchegeisiol. Bydd y polisi recriwtio newydd yn cael ei gefnogi gan weithdrefnau mewnol gan gynnwys ffurflen cymeradwyo swyddi newydd lle bydd gofyn i reolwyr nodi pa lefel o'r Gymraeg (mynediad, sylfaen, canolradd, uwch, hyfedredd) sy'n ofynnol ar draws sgiliau llythrennedd, siarad a deall. Gobeithir y bydd Polisi Recriwtio newydd a'r rhaglen dysgu Cymraeg dwys i staff yn weithredol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.</p>	Gweithredu'r polisi recriwtio newydd.

			<p>Mae pob aelod o staff newydd yn mynd trwy broses cynefino. Yn ystod y cyfnod hwn byddent yn derbyn cyflwyniad gan yr adran Datblygu dwyieithrwydd ar ymwybyddiaeth iaith, trosolwg o'r safonau, a dull gweithredu'r Grŵp o ran y Gymraeg a dwyieithrwydd.</p> <p>Canlyniad awdit mewnol Tachwedd 2020-Ionawr 2021: Adolygwyd naw o swyddi wag.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hysbysebwyd pob un ohonynt yn Gymraeg ac roedd disgrifiad swydd Cymraeg ar gael. • Cafwyd hyd i wallau iaith Gymraeg mewn 5 o'r disgrifiadau swydd (e.e. y term Saesneg 'Job Description' yn cael ei ddefnyddio yn lle 'Swydd Ddisgrifiad') • Mae'r ffurflen gais yn ddwyieithog ac yn cynnwys blwch i'r ymgeisydd ofyn am gyfweiliad/asesiad yn Gymraeg • Roedd 5 o'r swyddi yn gofyn am y Gymraeg yn hanfodol a'r gweddill yn gofyn am y Gymraeg yn ddymunol. 	
Cyflogai	106-144	Pawb	<p>Mae gan y Grŵp system gyfrifiadurol i gofnodi sgiliau iaith pob aelod o staff. Yn ogystal, mae'r system yn cofnodi dewis iaith staff. Mae gan bob aelod o staff fynediad i'r cyfrif personol ar y system ac yn gallu newid neu ddiweddarau'r wybodaeth yn rhwydd.</p> <p>Mae holl wasanaethau, prosesau a dogfennaeth sy'n ymwneud a chyflogaeth staff ar gael yn Gymraeg.</p> <p>Defnyddir system gyfrifiadurol My View i gofnodi gwyliau, absenoldebau, ac oriau gwaith hyblyg, ac mae'r system hwn ar gael yn y Gymraeg.</p> <p>Yn ystod cyfnod yr adroddiad hon, mae'r drefn adolygiad proffesiynol wedi cael ei ychwanegu i MyView ac ar gael yn ddwyieithog (penawdau) i staff.</p> <p>Darperir pob aelod o staff sy'n ddwyieithog gyda laniard 'Cymraeg' y Grŵp a disgwylir i bob aelod o staff wisgo'r laniard tra yn eu gwaith.</p> <p>Mae'r staff hynny nad ydynt yn rhugl yn cael y cyfle i fynychu cyrsiau Cymraeg Gwaith yn ystod eu horiau gwaith, gydag opsiwn hunan astudio wedi ei gyflwyno yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.</p>	Gweithredu rhaglen dysgu dwys newydd i staff newydd.

3.4. Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r wybodaeth sydd gan y Grŵp ynglŷn â sgiliau iaith Gymraeg ei staff:

	Math o sgiliau iaith Gymraeg	Nifer y staff	Rhugl B2/C1 ¹	Canolradd B1	Sylfaenol A1/A2	Dim Cymraeg	Dim gwybodaeth sgiliau					
Coleg Llandrillo												
1.1	Deall	387	50	13%	37	10%	125	32%	77	20%	98	25%
1.2	Siarad		48	12%	23	6%	123	32%	95	25%	98	25%
1.3	Ysgrifennu		38	10%	24	6%	109	28%	118	30%	98	25%
Coleg Menai a Meirion-Dwyfor												
2.1	Deall	419	221	53%	27	6%	39	9%	18	4%	137	33%
2.2	Siarad		216	52%	26	6%	40	10%	20	5%	135	32%
2.3	Ysgrifennu		188	45%	37	9%	55	13%	24	6%	105	25%
Gwasanaethau Academaidd												
3.1	Deall	262	109	42%	20	8%	56	21%	26	10%	51	19%
3.2	Siarad		105	40%	16	6%	56	21%	32	12%	53	20%
3.3	Ysgrifennu		98	37%	18	7%	51	19%	42	16%	53	20%
Gwasanaethau Corfforaethol												
4.1	Deall	222	58	26%	17	8%	54	24%	44	20%	49	22%
4.2	Siarad		55	25%	16	7%	49	22%	51	23%	51	23%
4.3	Ysgrifennu		51	23%	12	5%	49	22%	60	27%	50	23%
Busnes@												
5.1	Deall	227	109	48%	25	11%	40	18%	23	10%	30	13%
5.2	Siarad		108	48%	17	7%	45	20%	26	11%	31	14%
5.3	Ysgrifennu		95	42%	23	10%	39	17%	39	17%	31	14%
Grŵp Llandrillo Menai												
6.1	Deall	1517	547	36%	126	8%	314	21%	188	12%	365	24%
6.2	Siarad		532	35%	98	6%	313	21%	224	15%	368	24%
6.3	Ysgrifennu		470	31%	114	8%	303	20%	283	19%	337	22%

Ar gyfartaledd mae 516 (34%) o gyflogeion y Grŵp yn nodi eu bod yn rhugl yn y Gymraeg (ar draws y tair sgil) a 232 (15%) yn nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg. Cesglir sgiliau Cymraeg cyflogeion y Grŵp ar ein system adnoddau dynol mewnol (MyView). Mae hi'n ofynnol i bob aelod o staff ddiweddarar' adran berthnasol ar eu proffil personol. Nid yw tua chwarter o staff y Grŵp wedi llenwi'r adran hon ar MyView. Mae'r gofyniad i lenwi'r ffurflen hon bellach wedi'i gynnwys yn ffurflenni adolygiad blynyddol staff ac felly dylem weld gostyngiad yn nifer y staff nad ydynt wedi llenwi'r ffurflen eto.

Fel y soniwyd amdano eisioes, mae gan y Grŵp gynlluniau pendant ar gyfer datblygu'r gweithlu sy'n cynnwys datblygiadau yn ein Polisi Recriwtio a Rhaglen Dysgu Cymraeg Dwys i staff.

¹ "The Common European Framework of Reference for Languages (CEFR) is an international standard for describing language ability. It describes language ability on a six-point scale, from A1 for beginners, up to C2 for those who have mastered a language. This makes it easy for anyone involved in language teaching and testing, such as teachers or learners, to see the level of different qualifications. It also means that employers and educational institutions can easily compare our qualifications to other exams in their country." (<https://www.cambridgeenglish.org/exams-and-tests/cefr/>)

3.5. Recriwtio i Swyddi Gwag a Newydd

	Dymunol		Hanfodol		Angen dysgu Cymraeg	Dim angen sgiliau Cymraeg
	Nifer	Procent	Nifer	Procent		
Gwasanaethau Academaidd	19	36%	34	64%	0	0
Gwasanaethau Corfforaethol	18	72%	7	28%	0	0
Busnes@	8	36%	14	64%	0	0
Coleg Llandrillo	46	88%	6	12%	0	0
Coleg Menai/Meirion Dwyfor	9	13%	58	87%	0	0
Grŵp Llandrillo Menai	100	46%	119	54%	0	0

Ar hyn o bryd, nid yw'r Grŵp yn gwneud defnydd o'r categorïau 'Angen dysgu Cymraeg' a 'Dim angen sgiliau Cymraeg'. Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu gyda'r Gymraeg yn ddymunol fel isafswm.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad mae Panel Iaith y Grŵp wedi arwain ar adolygiad o Bolisi Recriwtio'r Grŵp yn edrych yn benodol ar ofynnion sgiliau iaith Gymraeg pob swydd newydd er mwyn cryfhau ymroddiad y Grŵp i ddatblygu gweithlu dwyieithog. Fel rhan o'r gwaith hyn, mae'r Panel iaith hefyd wedi goruchwyllo datblygiad o raglen dysgu Cymraeg dwys newydd i staff fydd yn cefnogi gweithredu'r Polisi Recriwtio.

Bydd y ffordd y mae'r Grŵp yn hysbysebu am swyddi yn cael ei drawsnewid. Bydd pob swydd sy'n cael ei hysbysebu yn cynnwys elfennau hanfodol o sgiliau iaith Gymraeg. Gall hynny gynnwys cyfuniad o sgiliau hanfodol a dymunol neu pob sgil yn hanfodol. Er enghraifft, petawn ni'n hysbysebu am swydd cynorthwydd gweinyddol yng Ngholeg Llandrillo:

Sgil Cymraeg	Hanfodol	Dymunol
Deall	Rhugl	-
Siarad	Rhugl	-
Llythrennedd	Canolradd	Rhugl

Darperir rhagor o fanylion ar y drefn newydd pan fydd y drefn yn weithredol (dyddiad targed: Medi 2022).

3.6. Hyfforddiant Cymraeg i gyflogeion

Maes Hyfforddiant	Nifer yn mynychu sesiynau Cymraeg	% yn mynychu sesiynau Cymraeg	Nifer yn mynychu sesiynau Saesneg	Nifer yn mynychu sesiynau dwyieithog	% yn mynychu sesiynau dwyieithog
Recriwtio a chyfweld	0	0	0	3 (arlein)	100%
Rheoli perfformiad	0	0	0	0	0
Y drefn cwyno a disgyblu	0	0	0	0	0
Delio â'r cyhoedd	0	0	0	44 (arlein)	100%
Cynefino staff	0	0	0	30	100%
Iechyd a diogelwch	N/A	N/A	N/A	3,713 (arlein)	100%

3.7. Hyfforddiant ieithyddol ac ymwybyddiaeth iaith i gyflogeion

	Nifer y dosbarthiadau	Nifer y staff ar gyrsiau
Mynediad 1	4	18
Mynediad 2	2	8
Sylfaen	3	3
Canolradd	1	7
Uwch	1	1
1:1 (Tîm rheoli)	1	1
Cyfanswm	12	38

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i gefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac yn darparu ystod o gyrsiau i staff drwy'r rhaglen Cymraeg Gwaith. Mae'r dosbarthiadau hyn ar gael i staff yn ystod oriau gwaith.

3.8. Cwynion

Ni dderbyniodd y Grŵp unrhyw gwynion a oedd yn ymwneud â'n cydymffurfedd â'r safonau iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn 2020-21. Os daw unrhyw gwynion i law ymdrinnir â hwy yn unol â'n polisi cwynion. Mae copi o'r polisi cwynion ar gael ar ein gwefan.

4. Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo'n llawn i gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg ac mae cynnwys yr adroddiad yn dangos ein bod wedi gwneud cynnydd gyda grwpiau o safonau ar draws sawl maes. Mae'r prif datblygiadau'n cynnwys:

1. Ail flwyddyn ein awdit mewnol ar y Safonau Iaith Gymraeg
2. Adolygu'r adran iaith ym mholisi recriwtio'r Grŵp
3. Datblygu fframwaith dysgu Cymraeg dwys i staff

Er nad yw'r polisi recriwtio a'r fframwaith dysgu newydd yn weithredol eto, teimlir ei fod yn bwysig cydnabod y gwaith manwl sydd wedi mynd rhagddi wrth ysgrifennu'r ddogfennaeth uchod a'r ymgynghori cyson ag amrywiaeth o randdeiliaid.

Mae rhai grwpiau o safonau angen sylw manylach yn ystod y cyfnod adrodd nesaf. Roedd yr awdit mewnol ar y safonau iaith Gymraeg wedi amlinellu nad yw pob aelod o staff yn dilyn gofynion y safonau fel ag y dylent. Mae hyn yn fwyaf amlwg gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau gweithredu, yn benodol; gohebiaeth, dogfennau a deynydd marchnata, gwasanaeth derbynfeydd, galwadau ffôn, gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol, deunyddiau/arwyddion ar y waliau, systemau arlein a hyfforddiant staff. Mae'r Grŵp wedi mynd i'r afael â'r materion hyn eisioes ond teimlir y byddai rhai camau gweithredu pendant i sicrhau dealltwriaeth lawn y staff o'r safonau yn atgyfnerthu'r gwaith hyn.

Argymhellir, felly, bod y Grŵp yn gweithredu fel a ganlyn:

1. Atgoffa holl staff o'u cyfrifoldebau unigol dan ofynnion y Safonau Iaith Gymraeg drwy ymgyrch cyfathrebu effeithiol Grŵp cyfan (dan ofal Tîm Polisi)
2. Sicrhau bod staff derbynfeydd newydd yn derbyn hyfforddiant ar ofynnion y safonau iaith Gymraeg (dan ofal Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Ddysgwyr)
3. Parhau i gynnal awdit mewnol blynyddol gyda phwyslais y cyfnod nesaf ar yr wefan newydd (dan ofal Cyfarwyddwr Datblygu Dwyieithrwydd, Adnoddau Dysgu a Sgiliau)
4. Adolygu defnydd o gyfrifon cyhoeddus ar y cyfryngau cymdeithasol yn enw'r Grŵp (dan ofal Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Ddysgwyr)
5. Adolygu'r modd y mae hyfforddiant mewnol yn cael ei gynrig i staff er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau iaith Gymraeg (dan ofal y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Ddysgwyr)
6. Gweithredu'r adran iaith ym mholisi recriwtio'r Grŵp (dan ofal Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol)
7. Cynnig cyfleoedd i staff allu dysgu Cymraeg ar y fframwaith dwys (dan ofal Cyfarwyddwr Datblygu Dwyieithrwydd, Adnoddau Dysgu a Sgiliau)